**Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Y Pwyllgor Cyllid – 3 Hydref 2012**

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Amcangyfrif ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013/14

## 1. Cefndir yr amcangyfrif hwn

1.1 Cyflwynaf amcangyfrif y gyllideb hon yn unol â pharagraff 15 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n datgan yr adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol ar wahân i'm cyflog, fy Yswiriant Gwladol a'm costau pensiwn, sy'n gost uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid ydynt yn rhan o'r amcangyfrif hwn. Fodd bynnag, cânt eu cofnodi yn fy Nghyfrifon Blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfanswm costau rhedeg y swyddfa.

1.2 Dyma'r ail waith i mi gyflwyno fy amcangyfrifon gerbron y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried cyflwyniad yr amcangyfrif hwn. Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn ymwneud yn benodol â'r materion hynny sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

## 2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1 Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwy'n ystyried cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff yn fy awdurdodaeth. Mae'r awdurdodaeth honno'n cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

2.2 Rwyf hefyd yn ystyried cwynion sy'n honni bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri eu cod ymddygiad. Hefyd, rwy'n darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru – gwasanaeth dros y ffôn ac ar y we - sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n dymuno cwyno am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus, ond nad ydynt yn gwybod sut mae gwneud hynny, i gyflwyno eu cwyn i'r sefydliad hwnnw. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn helpu unigolion gyda chwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y DU pan nad yw'r gwasanaethau wedi'u datganoli.

## 3. Llywodraethu Corfforaethol

3.1 Yn ystod 2011/12, bûm yn adolygu trefniadau llywodraethu fy swyddfa, gan gadw mewn cof sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn a'r ffaith bod y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am y gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni gan fy swyddfa i'n gorfod aros gyda mi, fel yr Ombwdsmon.

3.2 Er bod Pwyllgor Archwilio ymgynghorol yn ei le eisoes, ac wedi profi'n ffynhonnell werthfawr o gyngor a sicrwydd, penderfynais y byddai'r swyddfa'n elwa o greu Panel Ymgynghorol gyda chylch gwaith ehangach, er mwyn gwella tryloywder a gonestrwydd. Yn dilyn proses recriwtio agored, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i allu ffurfio Panel o bum aelod amrywiol o safon uchel. Mae dau gyfarfod llwyddiannus o'r Panel wedi'u cynnal hyd yma. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn is-bwyllgor o'r Panel Ymgynghorol yn awr. Mae'r trefniadau newydd hyn yn darparu sicrwydd a chyngor ychwanegol i mi fel Ombwdsmon a Swyddog Cyfrifyddu ac yn cynorthwyo i weithredu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Maent wedi cael eu datblygu i ystyried arfer gorau mewn cynlluniau ombwdsmyn sector cyhoeddus eraill a chyrff corfforaethau unigol eraill. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y gost yn isel ac fe'i cadwyd dan reolaeth drwy gynnal asesiad o'r holl geisiadau a dderbyniwyd am y swyddi hyn yn fewnol a threfnu i gyfarfodydd y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg gael eu cynnal yr un diwrnod.

## 4. Perfformiad ariannol

4.1 Mae fy nhrefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol wedi cael eu hadolygu'n annibynnol gan Deloitte fel fy archwilwyr mewnol. Penodwyd Deloitte fel fy archwilwyr mewnol o 1 Ebrill 2011 ymlaen. Cynlluniwyd gwaith Deloitte ar sail eu hasesiad o'r anghenion cyffredinol ac fe'i gweithredwyd drwy eu rhaglen flynyddol gyntaf. Cyfeiriodd eu hadroddiadau at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella ble'r oedd angen.

4.2 Dywedodd Adroddiad Archwiliad Mewnol Blynyddol Deloitte: "Mae sicrwydd sylweddol wedi'i gyflawni ar gyfer yr holl archwiliadau mewnol a gynhaliwyd". Yn ystod 2011/12, sef blwyddyn gyntaf cynllun archwilio tair blynedd, gwnaed 15 o argymhellion blaenoriaeth isel. Yr oedd un argymhelliad blaenoriaeth ganolig – y dylid paratoi arweiniad ar ddefnyddio taenlenni allweddol.

4.3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar gyfer fy nghyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2011/12, yn yr un modd â'r holl flynyddoedd blaenorol.

4.4 Rwy'n gweithio yn unol â'r egwyddor y dylai costau'r swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Cyflawnwyd hyn erioed ers sefydlu'r swyddfa dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae'n egwyddor a ddeilliodd o arfer da yn y sector cyhoeddus. Ceir tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o wariant ar nodau ac amcanion fy Nghynllun Strategol fel y'i nodwyd yn y Cyfrifon Blynyddol.

4.5 Gwnaethom 98% o daliadau i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr anfonebau yn fy swyddfa i ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012. Y cyfnod ar gyfartaledd ar gyfer talu anfonebau yn ystod 2011/12 oedd 8 diwrnod gwaith, o gymharu â 13 diwrnod yn 2010/11. Rydym yn parhau i ymdrechu i gwrdd â’r safonau a nodir yng nghyhoeddiad Trysorlys EM ‘Rheoli Arian Cyhoeddus’ y dylid gwneud taliadau o fewn 10 diwrnod.

4.6 Mae’r cyflawniadau hyn yn gyson â’r safonau uchel o ran rheolaeth ariannol sydd wedi bod ar waith ers creu’r sefydliad.

## 5. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

5.1 Fel yr adroddwyd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid y llynedd, gwnaed ymdrech unedig i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yng nghyfnodau cynnar y broses delio â chwynion, ynghyd â sicrhau bod y cam ymchwilio’n fwy effeithlon. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac yn allweddol yng nghyd-destun y nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion sy’n cyrraedd fy swyddfa i.

5.2 Mae’r duedd honno i’r niferoedd gynyddu wedi parhau yn ystod y flwyddyn fusnes gyfredol (2012/13). Gan gymharu’r pum mis cyntaf (h.y. Ebrill i Awst) eleni â’r un cyfnod yn 2011/12:

- mae’r ymholiadau wedi **cynyddu 92.4%** (1,133 o gymharu â 589) (roedd y ffigur yn 340 yn 2009/10)
- mae’r cwynion wedi **cynyddu 8%** (853 o gymharu â 788) (739 oedd y ffigur yn 2009/10).

Mae’n nodweddiadol fod cwynion iechyd yn parhau i gynyddu. Fel cyfran o’r baich gwaith, ar hyn o bryd mae’n 37%, o gymharu â 32% ar gyfer 2011/12 a 25% ar gyfer 2010/11. Er gwaetha’r cynnydd mewn cwynion, mae fy swyddfa i’n llwyddo i leihau nifer yr achosion ar y gweill. Ar 31 Awst 2012, roedd 329 o achosion yn agored o gymharu â 455 ar 31 Mawrth 2012. Nid oedd unrhyw ymchwiliadau’n fwy na 12 mis oed ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. (Mae’r targed 12 mis a osodwyd gennyf yn gosod y swyddfa ymysg y 'perfformwyr gwell' ymhlith ombwdsmyn gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.)

5.3 Mae’r gwaith a wnaed yn ystod 2011/12 i ddatblygu gwefannau newydd yn profi ei werth. O’r amser y lansiwyd y rhain ddechrau Hydref 2011 hyd ddiwedd Awst 2012, roedd 25% o’r cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa wedi cael eu gwneud drwy gyfrwng ffurflenni gwe. Yng ngoleuni’r ffaith bod y manylion a nodir gan achwynwyr yn y ffurflenni gwe, yn dilyn gwiriad dilysu gan y Tîm Cyngor ar Gwynion, yn mynd yn awtomatig i’r gronfa ddata cwynion, mae llawer iawn o waith gweinyddol o ran sefydlu cofnodion cwynion bellach yn ddiangen. Mae’r camau effeithiolrwydd hyn wedi galluogi’r swyddfa i ymdopi â’r baich gwaith ychwanegol a gyfeiriwyd ato ym mharagraff 5.2 uchod.

5.4 **Adnoddau staff** – Bydd aelodau'n cofio, o ganlyniad i'r lefel o adnoddau ariannol a ddarparwyd i'm swyddfa ar gyfer 2011/12 y bu'n rhaid i mi gymryd camau i leihau fy sefydliad staffio, gan olygu gostyngiad o 8.5% mewn swyddi (cyfwerth ag amser llawn). Cyflawnwyd hyn drwy ad-drefnu, pryd y bu i mi wneud newidiadau ar lefel rheoli a rhoi trefniadau ar waith er mwyn delio â'r effeithiau yn sgil hynny – er enghraifft, lleihau nifer y timau archwilio o dri i ddau. Yn benodol, cafodd pum swydd eu dileu: un Cyfarwyddwr (o ddau); dwy swydd Prif Ymchwilydd a dau Swyddog Cefnogi Gwaith Achos. Y llynedd, mynegodd y Pwyllgor Cyllid bryder am y twf yn y cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa a'm gallu i ymdopi â hyn. Yn arbennig, roedd anesmwythyd ynghylch y ffaith y byddai'n rhaid i mi, efallai, adolygu'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu i fwrw cwyn yn ei blaen i ymchwiliad ai peidio. Gwnes addewid ar y pryd na fyddwn yn cymryd cam o'r fath heb gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor. Mae'n bleser gennyf gofnodi bod yr effeithlonrwydd a gyflwynwyd gennyf i yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn golygu nad oedd cam o'r fath yn angenrheidiol yn ystod 2011/12. Er hynny, rwy'n llawn sylweddoli bod her fawr o'm blaen o ran delio â'r cynnydd parhaus mewn cwynion i'm swyddfa, yn arbennig y cwynion iechyd, sef y rhai mwyaf cymhleth o ddigon i ymchwilio iddynt, a'r rhai sy'n cymryd y mwyaf o amser. Mae siart strwythur fy swyddaf ar 31 Mawrth 2012 yn Atodiad B.

5.5 **Cynghorwyr clinigol** – Rwy'n defnyddio cynghorwyr clinigol a chanddynt arbenigedd mewn amryw o feysydd mewn proffesiynau iechyd i'm helpu i ystyried achosion sy'n ymwneud ag iechyd. Cyn hyn, roeddwn yn dibynnu ar gynghorwyr a oedd yn gysylltiedig â threfniant â Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OPHSO) ac mae'n rhaid ailgodi tâl am hynny i'm swyddfa i. Penderfynais yn ddiweddar i weithio'n uniongyrchol gyda nifer o gynghorwyr clinigol sy'n dod i'm swyddfa i yn ôl yr angen. Rwyf wedi bod yn hapus iawn gyda'r effaith gadarnhaol ar fy ngwasanaeth o ganlyniad. Mae hyn wedi galluogi adolygiad mwy prydlon o achosion yn y camau cynnar wrth ystyried cwyn, a rhyngweithio mwy effeithiol, gyda gwell ffocws, chynghorwyr arbenigol eraill yn OPHSO yn ystod yr ymchwiliadau. Mae hefyd wedi golygu llai o gostau i'm swyddfa i oherwydd bod angen anfon llai o ffeiliau achos i OPSHO ym Manceinion neu Lundain. O ystyried y cynnydd mewn cwynion iechyd o 359 yn 2010/11 i 516 yn 2011/12, byddem wedi disgwyl i'r gwariant ar gynghorwyr i OPSHO yn £107K. Fodd bynnag, gyda'r trefniadau newydd yn eu lle, y gwir wariant oedd £88K. Pe na fyddem wedi cyflawni'r effeithlonrwydd hwn byddem wedi gorfod canfod £19K ychwanegol o'n hadnoddau ariannol presennol. O ganlyniad i lwyddiant y cynghorwyr clinigol 'mewnol', rwyf hefyd wedi gweithio â nifer o gynghorwyr proffesiynol eraill ym maes gofal cymdeithasol a chynllunio. Mae'r rhain unwaith eto'n profi'n werthfawr iawn, yn arbennig gan eu bod yn galluogi i benderfyniadau cynnar gael eu gwneud yn ystod cam cyn-ymchwiliad y broses gwynion.

## 6. Y tair blynedd nesaf

6.1 Ar ddiwedd mis Mawrth 2012, cyhoeddais y Cynllun Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydyn ni wedi cyflwyno Gweledigaeth wedi'i hadolygu yn ogystal â sefydlu nodau strategol allweddol newydd ar gyfer y tair blynedd sydd o'n blaen. Mae rhan helaeth o'r Cynllun yn bwrw ymlaen â'r camau arloesol a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn arbennig, byddaf yn edrych ar ddatblygu gwaith gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru ymhellach, gan gynnwys:

- darparu crynodebau ar fy ngwefan o waith cyrff eiriolaeth/cynghori yn ogystal â'r manylion cyswllt a ddarperir ar hyn o bryd,
- rhoi gwybodaeth ar rai 'cyfryngol' sy'n ymdrin â chwynion, lle maent yn bodoli (er enghraifft, os bydd rhywun eisoes wedi cwyno i'r Gofrestrfa Tir gallent gwyno i'r Arolygwr Cwynion Annibynnol, ac yna, os ydynt yn parhau'n anfodlon, gallent gwyno i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd)
- rhoi manylion rheoleiddwyr lle bo'n briodol (er enghraifft, pe byddai rhywun yn dymuno cysylltu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynghylch addasrwydd meddyg teulu i ymarfer).

6.2 Er hynny, ceir ffocws hefyd ar baratoi ar gyfer y meysydd awdurdodaeth newydd sy'n debygol o gael eu cyflwyno i'm swyddfa i o ganlyniad i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a'r newidiadau i'w cyflwyno i weithdrefn cwynion statudol y gwasanaethau cymdeithasol. Ynddynt cynigir diddymu cam yr adolygiad annibynnol ac anfon pob cais am ystyriaeth annibynnol i'm swyddfa i.

6.3 Rwy'n croesawu'r newidiadau arfaethedig i weithdrefn gwynion statudol y gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn sicrhau ei bod yn unol â threfniadau Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG a'r Polisi a'r Cyfarwyddyd Pryderon a Chwynion Model ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd arbediad nodedig i gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r newid hwn. Ni fydd rhaid iddi dalu costau cynnal Panelau Adolygu Annibynnol mwyach na gwneud taliadau i Aelodau Panelau; ni fydd Llywodraeth Cymru angen Ysgrifenyddiaeth Cwynion Annibynnol chwaith. Gall costau gweinyddol yr ystyriaeth annibynnol i gwynion y gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys yn rhan o gostau fy swyddfa i. Er hynny, mae'n rhaid i mi wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd bychan yn fy adnoddau ymchwilio i ymdopi â'r cwynion ychwanegol a ddaw i'm swyddfa i o ganlyniad. Er hynny, gan ystyried y newid yma a'r estyniad ar fy awdurdodaeth fel y cynigir yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf i wedi amcangyfrif y bydd modd i mi allu cyfyngu hyn i un swydd Ymchwilydd ychwanegol ar gyfer 2013/14. Rwyf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu fy sefydliad i gynnwys un Ymchwilydd ychwanegol yn 2014/15. Er hynny, efallai na fydd hyn yn angenrheidiol, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwynion y byddaf yn eu derbyn. Mae cyflog a chostau cysylltiedig swydd un Ymchwiliwr am flwyddyn gyfan yn dod i £44K.

## 7. Pensiynau Llywodraeth Leol

7.1 Dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae fy staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yng nghyflwyniad y llynedd, dywedais wrth sôn am sefydlu swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2006 bod gan nifer o aelodau o staff a oedd yn arfer cael eu cyflogi gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru hawl i aros yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ers hynny, mae'r cynllun, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerdydd, mewn diffyg ariannol o hyd. Y rheswm am hyn yw oherwydd y cynnydd mewn disgwyliad oes sy'n effeithio ar ymrwymiadau'r cynllun pensiwn tra mae ei asedau wedi gostwng o ganlyniad i'r gostyngiadau yng ngwerth ei fuddsoddiadau a chyfraddau enillion is. Mae cyflwr presennol yr economi wedi gwaethygu'r diffyg hwnnw ond y gobaith yw, wrth i'r economi wella, y gwelir gwelliant yng nghyflwr y gronfa bensiwn hefyd.

7.2 Cafodd yr atebolrwydd am y diffyg, fel y nodwyd yn dilyn yr adolygiad actwaraidd tair blynedd diweddaraf, ei gynnwys yn yr ail amcangyfrif atodol ar gyfer 2011/12 ac y mae hyn yn gyson gyda'r manylion wedi'u gosod yn yr amcangyfrif ar gyfer 2012/13 a ystyriwyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2011. Er hynny y mae'r taliadau blynyddol yn cael eu trin fel DEL yn gyson â'r hyn a drafodwyd gyda'r Pwyllgor y llynedd.

## 8. Dyfarniadau cyflog

8.1 Mae cyflogau'r swyddfa'n seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr. Gwneir codiadau'n dibynnu ar setliad cyflog Llywodraeth Leol. Dros y tair blynedd diwethaf, ni welwyd unrhyw godiad mewn cyflog. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn caniatáu ar gyfer unrhyw godiad cyflog yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 sydd ar y gorwel.

## 9. Pwysau Cost

9.1 O ystyried y pwysau sylweddol ar fy ngwasanaeth, rwyf wedi caniatáu ar gyfer cynnydd o 1.12% yn fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2013/14 (sydd wedi'i ddal ar gyfer 2014/15), sy'n unol â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ble bydd Bloc Refeniw DEL Cymru, gan gynnwys symudiadau heb fod yn arian parod ar fin ei gynyddu gan swm tebyg o 2011/12. Nid yw hyn yn cynnwys y swydd(i) ymchwilydd ychwanegol parthed newidiadau gwasanaethau cymdeithasol a gyfeirir atynt ym mharagraff 6.3.

9.2 Mae'r swyddfa'n parhau i ymgorffori cynnydd mewn costau. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn datgan bod y Dadchwyddyddion Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC), fel y mesur ar gyfer chwyddiant ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, yn cael eu hamcangyfrif i fod yn 2.5% y flwyddyn ar hyn o bryd.

9.3 Mae'r swyddfa wedi ymgorffori costau uwch sy'n berthnasol i'r cynnydd mewn pensiwn ar gyfer y cyn Ombwdsmon, y mae ei bensiynau'n cael eu talu o'm dyraniad cyllidebol i. Yn unol â'r Gorchymyn Cynyddu Pensiynau ar gyfer 2012, cynyddodd y taliadau pensiwn hyn 5.2% gan ychwanegu £4k at gostau rhedeg y swyddfa hon. Yn seiliedig ar ffigurau'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Gorffennaf 2012, y codiad blynyddol sy'n daladwy o fis Ebrill 2013 ymlaen yw 2.6%. Yn seiliedig ar gynnydd pellach mewn costau tanwydd a gwresogi, mae'n debygol y bydd y Cynnydd Pensiwn tua 3%, gan arwain at gynnydd pellach mewn costau sy'n fwy na £2k.

9.4 Mae'r ffioedd gwasanaethu perthnasol i'r swyddfa ym Mhencoed yn parhau i godi'n uwch na'r dadchwyddyddion CMC sy'n cael eu rhagweld. Hefyd, mae'r landlord yn gyfrifol am ddarparu gwres a thrydan i'r swyddfa. Mae'r costau hyn yn codi'n uwch na'r dadchwyddyddion CMC sy'n cael eu rhagweld ar hyn o bryd. Nid oes llawer o sgôp ar gyfer rheoli'r costau hyn.

9.5 Fel y crybwyllwyd y llynedd, mae costau postio a chludo’n parhau i godi. Er hynny, mae’r mesurau a gyflwynwyd er mwyn cynyddu nifer y cynghorwyr mewnol, a thrwy hynny leihau’r arfer o symud dogfennau, wedi bod yn effeithiol iawn er mwyn rheoli’r costau hyn. Hefyd, mae defnydd cynyddol o weithdrefnau trosglwyddo electronig yn cael ei ddatblygu.

9.6 Anogir y staff i ddal ati i geisio lleihau costau wrth gynnal gweithgareddau’r swyddfa. Mae hyn wedi llwyddo i leihau costau. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- staff sydd wedi cymhwyso’n briodol yn cynrychioli swyddfa’r Ombwdsmon mewn gwrandawiadau pwyllgorau safonau a thribiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru yn hytrach na bod y swyddfa’n gorfod cyflogi Cwnsler – arbediad o £20K yn 2011/12. Mae’r arbediad hwn wedi golygu y bu modd i ni gwrdd â’r pwysau cost a nodir uchod.
- cofleidio datblygiadau technolegol i symud y swyddfa tuag at ddod yn swyddfa ddi-bapur – i’w weithredu dros gyfnod o dair blynedd gydag amcangyfrif o £12K o arbediad

a nifer o gynlluniau llai.

9.7 Mewn perthynas â chaffael, pan drefnir cytundebau newydd, y nod yw sicrhau llai o gostau a/neu wella’r dull o weithio. Mae cytundeb gwasanaethau argraffydd newydd (gan gynnwys llungopïo) wedi sicrhau llai o gostau ac mae ganddo botensial i sicrhau gostyngiad pellach yn y costau drwy well arferion gweithio a dull mwy effeithiol o fonitro’r costau hyn.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**25 Medi 2012**

**************************************************************************************************

| |
|---|
| Atodiad A – Amcangyfrifon 2013/14<br>Atodiad B – Siart Strwythur |

**Atodiad A**

## Amcangyfrifon 2013/14

| | | Gwirioneddol 2011/12 | Cyllideb 2012/13 | Amcangyfrif 2013/14 | Amcangyfrif 2014/15 | Amcangyfrif 2015/16[1] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| A | **Cyfalaf DEL** | 13 | 14 | 13 | 13 | 13 |
| B | **Refeniw Cyllidol DEL** | | | | | |
| | Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,569 | 2,620 | 2,691[2] | 2,743[3] | 2,750 |
| | Costau Cysylltiedig Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | 231 | 242 | 254 | 266 |
| | | 2,569 | 2,851 | 2,933 | 2,997 | 3,016 |
| | Adeilad | 326 | 343 | 349 | 349 | 349 |
| | Systemau cyfrifiadur a chefnogaeth | 132 | 90 | 85 | 85 | 85 |
| | Costau swyddfa | 138 | 146 | 148 | 148 | 148 |
| | Ffioedd cynghori | 281 | 300 | 310 | 310 | 310 |
| | Cyfathrebu | 98 | 80 | 82 | 82 | 82 |
| | Hyfforddi a recriwtio | 40 | 65 | 65 | 65 | 65 |
| | Teithio a chynhaliaeth | 26 | 34 | 34 | 34 | 34 |
| | Ffi archwilio | 19 | 20 | 22 | 22 | 22 |
| | **Is gyfanswm** | 3,629 | 3,929 | 4,028 | 4,092 | 4,111 |
| | Incwm | 0 | -6 | -6 | -6 | -6 |
| | **Cyfanswm Refeniw Cyllidol DEL** | 3,629 | 3,923 | 4,022 | 4,086 | 4,105 |
| C | **DEL heb fod yn arian parod** | | | | | |
| | Dibrisiant | 122 | 126 | 109 | 105 | 64 |
| | **Refeniw DEL (**B+C) | 3,751 | 4,049 | 4,131 | 4,191 | 4,169 |
| | **Cyfanswm DEL** (A+B+C) | **3,764** | **4,063** | **4,144** | **4,204** | **4,182** |
| D | **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** | | | | | |
| | Symudiadau ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | -231 | -242 | -254 | -266 |
| | Symudiadau i ddarpariaethau | 8 | 20 | 40 | 30 | 47 |
| | **Cyfanswm AME** | 8 | -211 | -202 | -224 | -219 |
| E | **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | | | | | |
| | A+B+C+D | **3,772** | **3,852** | **3,942** | **3,980** | **3,963** |
| | | | | | | |
| | **Adnoddau Gofynnol** | 3,772 | 3,852 | 3,942 | 3,980 | 3,963 |
| | Eitemau heb fod yn arian parod | -122 | -126 | -109 | -105 | -64 |
| | Cynydd ddarpariaethau | -8 | -20 | -40 | -30 | -47 |
| | Defnydd darpariaethau | | 231 | 242 | 254 | 266 |
| | Symudiadau eraill yn y cyfalaf gweithio | -2 | 25 | 25 | 20 | 20 |
| | **Cyfanswm gofynion arian parod** | **3,640** | **3,962** | **4,060** | **4,119** | **4,138** |

[1] Gall amcangyfrifon 2015/16 fod yn destun newid yn dibynnu ar ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf.
[2] Gan gynnwys darpariaeth ar gyfer 1 swydd 'Ymchwilydd' ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn cwynion o ganlyniad i newidiadau Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler paragraff 6.3 ym mhrif gorff yr adroddiad)
[3] Gan gynnwys darpariaeth ar gyfer swydd 'Ymchwilydd' ychwanegol o ganlyniad i newidiadau Gwasanaethau Cymdeithasol, ond efallai na fydd angen y swydd hon ac mae'n dibynnu ar ddwysedd y cwynion a dderbynnir.

## Atodiad B
## Siart Strwythur (sefyllfa ar 31 Mawrth 2012)

